

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

MEMORANDWM CYWIRIADAU

YN UNOL Â RHEOL SEFYDLOG 22.13

Rheoliadau Addysg (Cyhoeddi Cynigion a Gorchmynion Drafft)

(Corfforaethau Addysg Bellach) (Cymru) 2001

Y cefndir

Cafodd y Gorchymyn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Mai 2001, a'i ystyried gan y Pwyllgor Deddfau ar 8 Mai 2001.

Nododd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau fân wallau drafftio cyn cyfarfod y Pwyllgor ac awgrymwyd diwygiadau yn sgil hynny.

Cyflwynwyd adroddiad ar y diwygiadau a chytunodd y Pwyllgor Deddfau arnynt yn ei gyfarfod ar 8 Mai 2001, i gael eu hystyried gan y Cynulliad fel a ganlyn:-

Y diwygiadau

1. Rheoliad 2(c)

Diwygiad 1 – Yn y testun Cymraeg, mae'r drafftio yn is-baragraff (c) yn creu lle ar gyfer amwysedd. Er mwyn bod yn bendant, dylai paragraff (c) gael ei ddileu, gan fewnosod is-baragraffau (c) ac (ch) fel y gwelir isod:

"(c) yn achos sefydliad sy'n bodoli eisoes, disgrifiad cyffredinol o'r addysg sy'n cael ei darparu yn y sefydliad ac o'r addysg sydd i'w darparu yno pan fydd yn cael ei redeg gan gorfforaeth addysg bellach gan gynnwys yn y ddau achos ystod oedran y myfyrwyr;

(ch) yn achos sefydliad sydd i'w sefydlu, disgrifiad cyffredinol o'r addysg sydd i'w darparu yn y sefydliad gan gynnwys ystod oedran y myfyrwyr;"

Yn y testun Saesneg, am yr un rhesymau ag uchod, dylai is-baragraff (c) gael ei ddileu, gan fewnosod is-baragraffau (c) a (d) newydd fel y gwelir isod:

"(c) in the case of an existing institution, a general description of the education provided at the institution and of the education to be provided there when it is conducted by a further education corporation including the age range of students in both cases;

"(d) in the case of an institution to be established, a general description of the education to be provided at the institution including the age range of students;"

Diwygiad 2 – Yn y testun Cymraeg, o ganlyniad i Ddiwygiad 1 uchod, dylai is-baragraff (ch) gael llythyren newydd (d) ac is-baragraffau (d) i (ng) gael llythrennau newydd (dd) i (j) yn unol â hynny.

Yn y testun Saesneg, o ganlyniad i Ddiwygiad 1 uchod, dylai is-baragraff (d) gael llythyren newydd (e) ac is-baragraffau (e) i (n) gael llythrennau newydd (f) i (o) yn unol â hynny.

Y rheswm am y diwygiad: mân wall drafftio.

2. Rheoliad 8(1)

Diwygiad 3 – Yn y testun Cymraeg, ni roddwyd eu teitl llawn i'r Rheoliadau y cyfeirir atynt. Mae'r geiriau '(Corfforaethau Addysg Bellach)' ar goll a dylent gael eu mewnosod.

Yn y testun Saesneg, ni roddwyd eu teitl llawn i'r Rheoliadau y cyfeirir atynt. Mae'r geiriau

'(Further Education Corporations)' ar goll a dylent gael eu mewnosod.

Y rheswm am y diwygiad: mân wall drafftio.

Jane Davidson

Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

15 Mai 2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

MEMORANDUM OF CORRECTIONS PURSUANT TO

STANDING ORDER 22.13

The Education (Publication of Draft Proposals and Orders) (Further Education Corporations) (Wales) Regulations 2001

Background

This Order was laid before the National Assembly for Wales on 1 May 2001, and was considered by the Legislation Committee on 8 May 2001.

Minor drafting errors were identified by the Legal Advisers to the Legislation Committee prior to the Committee's meeting and amendments suggested in consequence.

The amendments were reported and agreed by the Legislation Committee in its meeting on the 8 May 2001, for consideration by the Assembly as follows:-

Amendments

1. Regulation 2(c)

Amendment 1 – In the English text, the drafting of subparagraph (c) leaves room for ambiguity. In the interests of certainty subparagraph (c) should be deleted and new subparagraphs (c) and (d) inserted as shown below:

"(c) in the case of an existing institution, a general description of the education provided at the institution and of the education to be provided there when it is conducted by a further education corporation including the age range of students in both cases;

"(d) in the case of an institution to be established, a general description of the education to be provided at the institution including the age range of students;"

In the Welsh text, for the same reasons as stated above, paragraph (c) should be deleted and new subparagraphs (c) and (ch) inserted as shown below:

"(c) yn achos sefydliad sy'n bodoli eisoes, disgrifiad cyffredinol o'r addysg sy'n cael ei darparu yn y sefydliad ac o'r addysg sydd i'w darparu yno pan fydd yn cael ei redeg gan gorfforaeth addysg bellach gan gynnwys yn y ddau achos ystod oedran y myfyrwyr;

(ch) yn achos sefydliad sydd i'w sefydlu, disgrifiad cyffredinol o'r addysg sydd i'w darparu yn y sefydliad gan gynnwys ystod oedran y myfyrwyr;"

Amendment 2 - In the English text, as consequence of Amendment 1 above, subparagraph (d) should be 're-numbered ' to (e) and sub-paragraphs (e) to (n) re-numbered as sub-paragraphs (f) to (o) accordingly.

In the Welsh text, as a consequence of amendment 1 above, subparagraph (ch) should be re-

numbered (d) and sub-paragraphs (d) to (ng) re-numbered as sub-paragraphs (dd) to (j) accordingly.

Reason for the amendment: minor drafting error.

2. Regulation 8(1)

Amendment 3 – In the English text, the Regulations referred to were not given their full title. The words '(Further Education Corporations)' are missing and should be inserted.

In the Welsh text, the Regulations referred to were not given their full title. The words '(Cofforaethau Addysg Bellach)' are missing and should be inserted.

Reason for the amendment: minor drafting error.

Jane Davidson

Assembly Minister for Education and Lifelong Learning

15 May 2001